**Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth Community Council**

**9ed Hydref 2024 / 9th October 2024**

**Festri Tabernacle Vestry, Pencader**

**Is-Bwyllgor Cyllid / Finance Sub-Committee**

**7.00 yh / pm**

**Presennol / Present:** M. Griffiths, A. Davies, D. Davies, A. James, H. Lewis, A. Evans (Clerc/Clerk)

**Ymddiheuriadau / Apologies:** R. Thomas

| | | |
|---|---|---|
| **1. Cofnodion Cyfarfod 10ed Gorffennaf 2024** – Derbyniwyd fel cofnodion cywir yng nghyfarfod llawn y Cyngor ar 15ed Gorffennaf, 2024.<br>Cynigiwyd: H. Lewis; Eiliwyd: D. Davies. | | **1. Minutes of Meeting held 10th July 2024** – Accepted as an accurate record at Full Council Meeting held on 15th July, 2024.<br>Proposed: H. Lewis; Seconded: D. Davies |
| **2. Materion yn Codi** – Nid oedd unrhyw faterion yn codi nad oes eisoes wedi eu trafod yng nghyfarfod llawn y Cyngor ar 15ed Gorffennaf, 2024. | | **2. Matters Arising** – There were no matters arising which had not been discussed at the meeting of the full Council on 15th July, 2024. |
| **3. Derbyn a thrafod y Fantolen / Adroddiad Ariannol hyd at 30.09.2024** – Cyflwynwyd y Fantolen Ariannol Chwarterol gan H. Lewis. Trafodwyd a derbyniwyd yr adroddiad.<br>Cynigiwyd: A. Davies; eiliwyd: D. Davies. Nodwyd gwerthfawrogiad y Pwyllgor i'r Cyng. Lewis am adroddiad manwl a thrylwyr. | | **3. Receive and discuss Financial Statement / Report up to 30.09.2024** - The Quarterly Financial Statement was presented by H. Lewis. It was discussed and accepted. Proposed: A. Davies; Seconded: D. Davies. The Committee noted its appreciation to Cllr. Lewis for preparing a detailed and thorough report. |
| **4. Archwiliad Sylfaenol 2023-2024** – Cadarnhaodd y Cadeirydd bod yr hysbysiad ynglyn â chyhoeddi cyfrifon archwiliedig ar gyfer y flwyddyn a ddiweddwyd 31.03.2024 wedi ei osod ar wefan y Cyngor erbyn 30.09.2024, yn unol â gofynion Archwilio Cymru. Hefyd, nodwyd bod y Fflurflen Flynyddol ar gyfer 2023-2024 wedi ei gosod ar safle we'r Cyngor. | | **4. Basic Audit 2023-2024** – The Chairman confirmed that the notice regarding the publication of audited accounts for the year ended 31.03.2024 had been placed on the Council's website by 30.09.2024, as required by Audit Wales. Furthermore, it was noted that the Annual Return for 2023-2024 had also been placed on the Council's website. |
| **5. Amserlen Camau Gweithredu Ariannol Blynyddol** – Sicrhawyd bod y camau angenrheidiol wedi eu dilyn yn unol â'r canllawiau a'r gofynion sydd wedi eu nodi yn y ddogfen. | | **7. Annual Financial Timetable of Actions** – It was ensured that the guidance and requirements as noted in this document had been followed. |
| **6. Unrhyw Fusnes Arall** - trafodwyd costau argraffu misol. Gofynnwyd i'r Clerc ddarparu gwybodaeth ynglyn â thua faint o gopïau sy'n cael eu argraffu bob mis. Penderfynwyd i'r Cyngor dalu'r swm sy'n ddyledus yn uniongyrchol i'r darparwr yn y dyfodol, yn hytrach nag ad-dalu'r Clerc bob mis fel sy'n digwydd yn bresennol. | | **6. Any Other Business** - the monthly cost of printing was discussed. The Clerc was asked to provide information re: approximate number of copies printed each month. It was decided that the Council pay the cost directly to the supplier in future as opposed to the current arrangement of reimbursing the Clerc each month. |
| **7. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** - Dyddiad i'w gytuno ar gyfer Mis Ionawr 2025 cyn dyddiad cyfarfod llawn y Cyngor. | | **7. Date of Next Meeting** - Date to be agreed for meeting to be held during January 2025 on a date prior to the meeting of the full Council. |

**Gorffenwyd / Ended**: 7.45 y.h. / p.m.

_______________________________